



Criminal • Cases • Review • Commission

Wrthi'n Ymchwilio i Gamweddau Cyfiawnder

Cwestiynau ac Atebion ynghylch y CCRC

Beth yw'r CCRC?

Y Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) yw'r sefydliad a sefydlwyd i edrych ar achosion lle mae pobl, sydd eisoes wedi colli eu hapêl, yn dal i gredu eu bod wedi'u heuogfarnu'n anghywir o drosedd neu wedi'u dedfrydu'n anghywir.

Os yw'r CCRC yn canfod bod rhywbeth o'i le ar euogfarn neu ddedfryd gallwn ni anfon yr achos yn ôl i'r llys apêl.

Mae'r CCRC yn **gwbl annibynnol**. Dydyn ni ddim yn gweithio i'r llysoedd, yr heddlu na'r erlyniaeth. Dydyn ni ddim yn gweithio i'r bobl sy'n gwneud cais am adolygiad o'u hachosion. Rydyn ni'n aros yn annibynnol ar bob ochr fel y gallwn ni ymchwilio i gamweddau cyfiawnder honedig yn ddiuedd.

Gallwn ni atgyfeirio achos yn ôl i'r llys apêl os ymddengys tystiolaeth newydd arwyddocaol neu ryw fater newydd arall a allai effeithio ar ddiogelwch yr euogfarn neu'r ddedfryd.

Beth mae'r CCRC yn ei wneud?

- **Gallwn ni** ymchwilio i euogfarn neu ddedfryd droseddol o Lys Ynadon, Llys y Goron, Llys Ieuencid, y Llys Milwrol neu Lys Sisiliaid y Gwasanaeth.
 - Dim ond y llysoedd apêl all wrthdroi euogfarn neu leihau dedfryd. Gwaith y CCRC yw edrych ar achosion a'u hanfon yn ôl i'r llysoedd apêl os ydyn ni'n ystyried bod rheswm da am wneud hynny. Os anfonwn ni achos ar gyfer apêl, mae'n rhaid i'r llys wrando ar yr apêl. **Pan anfonwn ni achos ar gyfer apêl, all y llys ddim ychwanegu at y ddedfryd hyd yn oed os byddant yn gwrthod yr apêl.**
 - **Mae gennym bwerau cyfreithiol arbennig** i'n helpu ni i ymchwilio i achosion. Gallwn ni ddefnyddio'r pwerau hyn i gael gafael ar ddogfennau rydyn ni'n ystyried bod eu hangen gan gyrff cyhoeddus a phreifat yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei dal gan yr heddlu, yr erlyniaeth a'r llysoedd. Gallwn ni ddadansoddi tystiolaeth, ystyried cyfraith achos newydd, cyfarwyddo arbenigwyr gwyddonol ac olrhain a chyfweld tystion hen a newydd.
- Rydyn ni'n **annibynnol**. Y CCRC sy'n penderfynu pa ddogfennau y dylai gael gafael arny'n nhw a pha ymchwiliadau i'w gwneud.

- **Gallwn ni** edrych ar hen achosion. Does dim terfyn amser ar gais i'r CCRC, fodd bynnag ar gyfer achosion hen iawn gall fod yn fwy anodd gan y gallai papurau a thystiolaeth wedi cael eu dinistrio.
- **Gallwn ni** edrych ar eich achos hyd yn oed os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol. Does dim rhaid ichi gael cynrychiolydd cyfreithiol i wneud cais inni ond efallai y bydd cyfreithiwr yn gallu helpu.
- **Allwn ni ddim** edrych ar orchmynion atal, dim ond yr euogfarn neu'r ddedfryd y gallai wedi codi oddi wrthi hi.
- **Allwn ni ddim** ymchwilio i faterion sifil neu faterion ynghylch mewnfudo.

Pwy all wneud cais i'r CCRC?

Gall unrhyw un wneud cais i'r CCRC os ydyn nhw'n credu eu bod nhw wedi'u heuogfarnu'n anghywir o dramgwydd troseddol neu wedi'u dedfrydu'n anghywir, cyhyd ag eu bod wedi'u heuogfarnu mewn llys troseddol yn Lloegr, Cymru neu Ogledd Iwerddon.

Gallwch chi ofyn inni edrych ar eich euogfarn, neu eich dedfryd, neu'r ddwy.

Dydy hi ddim yn costio unrhyw beth i wneud cais inni.

Pryd ddylwn i wneud cais i'r CCRC?

Dylech chi wneud cais i'r CCRC wedi ichi geisio apelio yn y dull arferol trwy'r llysoedd. Gallwch chi ddal i geisio apelio hyd yn oed os ydych chi'n meddwl eich bod wedi methu'r terfyn amser ar gyfer apelio.

Os nad ydych chi wedi apelio i'r llys mae ffurflenni gwahanol mae angen ichi eu llenwi i gychwyn apêl gyntaf. Weithiau mae'r ffurflenni hyn yn cael eu hatodi i gefn y ddogfen hon. Os na allwch chi ddod o hyd i'r ffurflenni hyn gallwch chi gysylltu â'r CCRC a byddwn ni'n anfon y rhain atoch chi.

Os ydych chi eisoes wedi colli'ch apêl ond eich bod chi'n dal i gredu eich bod wedi'ch euogfarnu neu ddedfrydu'n anghywir, dylech chi wneud cais i'r CCRC am adolygiad o'ch achos.

Beth os nad ydw i wedi apelio?

Os nad ydych chi wedi apelio yn y dull arferol trwy'r llysoedd, fel arfer bydd y CCRC yn ysgrifennu atoch chi i esbonio bod angen ichi fynd yn ôl a cheisio apelio yn y dull arferol.

Mae'r CCRC yn derbyn ond ychydig iawn o achosion lle mae pobl yn gwneud cais i ni cyn eu bod wedi ceisio apelio yn y dull arferol. Gallwn ni ddim ond atgyfeirio achosion yn absenoldeb apêl flaenorol os oes "amgylchiadau eithriadol" (rhesymau arbennig iawn).

Beth yw “amgylchiadau arbennig”?

Mae amgylchiadau eithriadol yn brin iawn. Mae'n rhaid bod rheswm da pam wnaethoch chi ddim apelio a pham **na allwch chi apelio nawr heb help y CCRC**. Does dim amgylchiadau eithriadol awtomatig. Rydyn ni'n penderfynu a oes amgylchiadau eithriadol ar ffeithiau pob achos.

Beth nad yw “amgylchiad arbennig”?

Isod mae rhai enghreifftiau o beth nad yw amgylchiadau eithriadol:

- Fe wnaethoch chi anghofio apelio neu fethu'r terfyn amser. Yn y sefyllfaoedd hynny gallwch chi o hyd ofyn i'r llys am gael apêl. Gelwir hyn yn apelio “y tu allan i amser”
- Fe wnaethoch chi dderbyn cyngor gan eich cyfreithiwr neu fargyfreithiwr nad oes gennych seiliau i apelio. Dydy hyn ddim yn eich atal rhag apelio.
- Dydych chi ddim wedi gallu cael cyfreithiwr neu fargyfreithiwr i'ch helpu chi i apelio. Gallwch chi wneud cais am apêl eich hunan heb gymorth cyfreithiol.

Ble alla i gael gwybod am apelio yn y dull arferol?

Byddwch chi'n canfod llawer o wybodaeth ddefnyddiol mewn llyfr o'r enw *Sut i Apelio*. Fe'i cyhoeddir gan yr elusen Cyfiawnder. Efallai byddwch chi'n gallu cael copi yn llyfrgell y carchar a gellir ei weld ar y rhyngwyd ar www.justice.org.uk/resources.php/274/how-to-appeal. Hefyd gallwch chi gysylltu â'r CCRC i ofyn am ffurflen apelio.

Sut alla i wneud cais i'r CCRC?

- Os ydych chi wedi colli apêl ac erbyn hyn rydych chi am wneud cais i'r CCRC, mae angen gwneud ceisiadau mewn ysgrifen gan ddefnyddio ffurflen gais y CCRC. Dydy'r ffurflen gais ddim yn brawf ac rydyn ni wedi ceisio ei wneud mor hawdd ag y gallwn ni. Byddwn ni'n postio ffurflen gais atoch chi os cysylltwch chi â ni. Mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'n rhaid ichi lofnodi'r ffurflen gais cyn ei hanfon aton ni..
- Mae angen bod **tystiolaeth neu ddadl gyfreithiol newydd arwyddocaol** i'r CCRC allu atgyfeirio'ch achos i lys apêl. Mae angen i hyn fod yn rhywbeth nad ydy e wedi'i glywed eisoes gan lys o'r blaen.
- Y ffurflen gais yw eich cyfle i roi gwybod inni am bopeth ynghylch beth sydd o'i le ar eich euogfarn ac/neu ddedfryd.

Beth yw “tystiolaeth neu ddadl gyfreithiol newydd arwyddocaol”?

Mae hyn yn golygu nad oedd rhywbeth wedi'i gynnwys yn eich treial neu eich apêl – er enghraifft, dystiolaeth newydd nad oedd yn hysbys ar y pryd, neu ddatblygiad newydd ym maes gwyddoniaeth. Allwn ni ddim erdych eto ar bethau a oedd yn hysbys i'r rheithgor, y barnwr neu'r ynadon, hyd yn oed os ydych chi'n credu eu bod

wedi gwneud y penderfyniad anghywir yn eich achos. Mae angen inni nodi rhywbeth newydd sy'n peri i'ch achos ymddangos yn wahanol iawn nawr.

Allwn ni ddim eich helpu chi os ydych chi ond yn ailadrodd yr un pwyntiau yn eich cais i ni a oedd wedi'u gwneud yn eich treial neu apêl. Mae'r CCRC angen rhywbeth newydd a phwysig a fydd yn gwneud i'r llys apêl feddwl mewn ffordd wahanol ynghylch eich achos. Mae angen ichi ddweud popeth inni yn eich ffurflen gais rydych yn ystyried ei fod yn newydd ac a allai wneud gwahaniaeth yn eich achos.

Beth wnewch chi gyda fy ffurflen gais?

Pan fyddwn ni'n derbyn eich ffurflen gais, byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi am beth fydd yn digwydd nesaf. Yna byddwn ni'n cael gafael ar unrhyw ddeunydd y gallai fod arnon ni ei angen, fel y ffeiliau o'r llys ble gawsoch chi eich euogfarnu ac o'ch apêl. Efallai bydd angen inni gael gafael ar ddogfennau eraill cyn y gallwn ni benderfynu a allwn ni adolygu'ch achos. Os penderfynwn ni y dylen ni ddechrau adolygu'ch achos, byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi ddweud hynny.

Fodd bynnag, efallai byddwn ni'n penderfynu na allwn ni adolygu'ch achos, er enghraifft:

- Os oes gennych chi apêl yn yr arfaeth.
- Os nad ydych chi wedi ceisio apelio o'r blaen ac os nad oes rhesymau arbennig pam y dylen ni adolygu'ch achos cyn eich bod chi wedi ceisio apelio yn y dull arferol. (Gweler uchod *Beth os nad ydw i wedi apelio?*)
- Os nad ydy eich cais yn codi unrhyw bwyntiau newydd arwyddocaol a allai ganiatáu inni anfon eich achos ar gyfer apêl.

Os penderfynwn ni fod y fath sefyllfa'n gymwys yn eich achos chi, byddwn ni'n ysgrifennu atoch chi l esbonio ein penderfyniad.

Beth fyddwch chi'n ei wneud gyda fy ngwybodaeth?

Os gwnewch gais i'r CCRC byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi inni i'n helpu ni i edrych i mewn i'ch achos. Efallai byddwn ni'n ei defnyddio i gael gafael ar ddeunydd sy'n eiddo i sefydliadau eraill. Gallai hon fod yn wybodaeth amdanoch chi neu am unrhyw berson neu bwnc arall a allai gael effaith ar eich achos.

Gallwn ni gael unrhyw ddeunydd rydyn ni'n meddwl bod arnon ni ei angen i ymchwilioi achos hyd yn oed os nad ydy sefydliadau neu unigolion eisiau inni ei gael. Unwaith ein bod ni wedi dechrau edrych i mewn i achos byddwn ni'n penderfynu pa ddeunydd rydyn ni eisiau ei gael.

Rydyn ni'n cymryd gofal mawr o'r wybodaeth yn ein meddiant. Rydyn ni'n anelu at gael beth mae arnon ni ei angen yn unig, a chadw'r wybodaeth dim ond am gymaint o amser â bod arnon ni ei angen. Rydyn ni'n ofalus iawn ynghylch sut a phryd rydyn ni'n rhannu gwybodaeth ynghylch achosion ac yn ei rhannu dim ond ble mae'n cael ei ganiatáu gan Ddeddf Apêl Droseddol 1998.

Pan ydyn ni'n atgyfeirio achos ar gyfer apêl, fel arfer mae gwybodaeth sy'n

berthnasol i'r apêl yn cael ei rhannu gyda'r ymgeisydd, gyda'r llys apêl a gyda'r erlyniaeth. Pan ydyn ni'n atgyfeirio achos fel arfer byddwn ni'n hysbysu unrhyw ddiodefwr sy'n gysylltiedig â'r achos. Fel arfer byddwn ni'n cyhoeddi datganiad byr i'r wasg yn nodi'r achos ac yn esbonio'r rhesymau sylfaenol am ei atgyfeirio. Hefyd efallai byddwn ni'n rhannu manylion cyswllt yr ymgeisydd gyda'r Gwasanaeth Cymorth Camweddau Cyfiawnder sy'n elusen a fydd yn cynnig help i bobl sydd wedi cael eu heuogfarnu'n anghywir.

Pwy fydd yn penderfynu ar fy achos?

Mae ein Comisiynwyr ni'n gwneud y penderfyniad a fyddwn ni'n anfon achos yn ôl i'r llys apêl neu beidio. Mae ein Comisiynwyr yn dod o amrediad o gefndiroedd proffesiynol. Mae llawer wedi'u cymhwyso yn y gyfraith a maen nhw i gyd wedi cael eu dewis oherwydd eu profiad a'u gallu i wneud penderfyniadau pwysig mewn materion cymhleth. Penodir Comisiynwyr gan y Frenhines ar gyngor y Prif Weinidog.

Faint o amser fydd yn ei gymryd?

Gall adolygiad fod yn syml gan gymryd ychydig wythnosau'n unig, neu gall fod yn fwy cymhleth gan gymryd llawer o fisoedd.

A fydda i'n cael Cymorth Cyfreithiol?

Efallai y bydd cyfreithiwr yn gallu cael cyllid o dan y cynllun Cymorth Cyfreithiol i'ch helpu chi gyda chais i'r CCRC. Gallwch chi gael cyngor ynghylch dod o hyd i gyfreithiwr trwy gysylltu â Chyngor Cyfreithiol Cymunedol ar 08945 345 4345 neu drwy fynd at eu gwefan www.communitylegaladvice.org.uk

Sut fydd y CCRC yn cyfathrebu gyda fi ynghylch fy achos?

Y rhan fwyaf o'r amser byddwn ni'n cyfathrebu gyda chi neu eich cynrychiolydd mewn ysgrifen. Trwy'r amser byddwn ni'n cysylltu â chi (naill ai trwy'r post neu drwy e-bost os ydych chi wedi rhoi cyfeiriad e-bost inni) er mwyn dweud wrthy'ch chi pan ydyn ni wedi derbyn eich ffurflen gais. Byddwn ni'n eich diweddarau (naill ai trwy'r post neu drwy e-bost) er mwyn dweud wrthy'ch chi am unrhyw ddatblygiadau yn eich achos, felly mae'n bwysig bod gennym y cyfeiriad cywir ichi. Peidiwch ag anghofio rhoi gwybod inni os bydd eich cyfeiriad yn newid neu os byddwch chi'n symud i garchar arall.

Cyflwynir y rheolau ar gyfathrebu gyda'r CCRC o'r carchar yng Ngorchymyn y Gwasanaeth Carchardai 4400. Os ydych chi'n profi problemau ynghylch darllen neu ysgrifennu byddwn ni'n ceisio canfod dull arall o gyfathrebu gyda chi. Hefyd byddwn ni'n ystyried cyfieithu deunydd i ieithoedd eraill lle bo angen.

Sut alla i gysylltu â'r CCRC?

Gallwch chi ffonio'r CCRC ond rydyn ni'n hoffi cael pethau mewn ysgrifen oherwydd ei fod yn golygu bod gennym gofnod clir o bopeth fel y gallwn ni ddychwelyd ato pan ydyn ni'n ystyried eich achos. Mae manylion cyswllt y CCRC ar ddiwedd y ddogfen hon.

A fyddwch chi'n ymweld â fi?

Yn y mwyafrif o achosion gallwn ni ganfod popeth mae arnon ni ei angen mewn ysgrifen, neu ar y ffôn, heb yr angen i gwrdd â'r ymgeisydd yn bersonol. Os byddwn ni'n ystyried bod angen inni siarad â chi wyneb yn wyneb byddwn ni naill ai'n trefnu cynhadledd fideo neu gyfarfod gyda chi.

Beth os bydd y CCRC yn penderfynu peidio ag anfon fy achos am apêl arall?

- Os ydych chi'n ystyried nad ydych chi wedi cael eich trin yn deg, gallwch chi wneud **cwyn ffurfiol** wrth Reolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid y CCRC. Gallwch chi gwyno hyd at 3 mis wedi inni gau eich achos. Bydd y Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid yn edrych yn annibynnol ar sut mae'r CCRC wedi ymddwyn. All y Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid ddim adolygu'ch achos eto.
- Os ydych chi'n ystyried bod rhywbeth o'i le â'r ffordd inni wneud ein penderfyniad, **gallwch chi wneud cais i'r Lllys Gweinyddol am adolygiad barnwrol**. Does dim rhaid ichi wneud cwyn ffurfiol cyn gwneud hyn, ond dylech chi fod yn ymwybodol bod terfynau amser yn y prosesau adolygiad barnwrol. Bydden ni'n eich cyngori i geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn dilyn y llwybr hwn.
- Os oes gennych tystiolaeth neu ddatl newydd arwyddocaol nad ydy wedi cael ei hystyried yn y treial, apêl neu unrhyw geisiadau cynharach i'r CCRC gallwch chi wneud ail gais. Bydd angen ichi gwblhau ffurflen newydd i roi gwybod inni beth sy'n newydd a pham nad oedd wedi'i gynnwys yn eich cais cynharach.

Os bydd y CCRC yn adolygu fy achos, a fydd hynnuy'n fy atal rhag cael fy allgludo?

Does dim hawl awtomatig i atal achos allgludo yn eich erbyn chi oherwydd eich bod chi wedi gwneud cais i'r CCRC. Os byddwn ni'n atgyfeirio'ch achos ar gyfer apêl, yna efallai y caiff eich achos allgludo ei stopio tan fod yr apêl wedi dod i ben. Os cewch chi eich allgludo wedi ichi wneud cais i'r CCRC, gallwn ni adolygu'ch achos hyd yn oed os ydych chi mewn gwlad arall cyhyd ag eich bod yn darparu cyfeiriad cyswllt neu gyfeiriad e-bost inni.

Ble alla i ganfod rhagor o wybodaeth ynghylch y CCRC a sut mae'n gweithio?

Mae gwybodaeth fanwl ynghylch y CCRC mewn cyfres o ddogfennau o'r enw memoranda ffurfiol y gellir eu lawrlwytho oddi ar y rhyngwyd trwy fynd at www.ccrcc.gov.uk a chlicio ar "gwaith achos". Hefyd gallwch chi eu cael trwy ysgrifennu aton ni.

Manylion Cyswllt CCRC

Os hoffech chi gysylltu â ni neu os hoffech inni anfod copi o'n ffurflenni cais ichi ysgrifennwch aton ni yn:

Y Comisiwn Adolygu Achosion

**Troseddol,
Philip's Place;
Birmingham
B3 2PW
info@ccrc.gov.uk**

**Rhif Ffôn y CCRC: 0121 233 1473
Cyfeiriad E-bost y CCRC:**